Oxalis Planning

# Parc Ffyniant , Ynys Môn

# Datganiad Seilwaith Gwyrdd

December 2024



# 1.0 Tudalen Gyflwyniad

## Cyflwyniad a Phwrpas

**Mae'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd (GI) wedi'i baratoi gan FPCR Environment and Design Ltd ar ran Anglesey Land Holdings i gyd fynd gyda chais cynllunio amlinellol ar gyfer ailddatblygu Parc Ffyniant, Caergybi, Ynys Môn ar gyn safle Gwaith Alwminiwm Penrhos. Mae'r cynigion yn cynnwys cadw ardaloedd presennol o fannau gwyrdd, planhigion a choed sydd wedi'u plannu ar y ffin ac ardaloedd gwlyb, gyda chyfleoedd i gyflwyno gwelliannau'n cael eu darparu o fewn y cynllun.**

Mae'r cais cynllunio yn ceisio sicrhau caniatâd ar gyfer datblygu Parc Technoleg a fyddai'n cynnwys canolfannau data (B8), gofod ymchwil a datblygiad a gofod swyddfa (B1). Bydd y cynllun yn cynnwys cadw a gwella mannau gwyrdd a gofod glas, gan gynnwys cadw unrhyw goed a phlanhigion gafodd eu plannu ar y ffin. Bydd cyfleoedd ar gyfer tirlunio ar y safle hefyd yn cael eu harchwilio.


Mae'r cais cynllunio yn ceisio sicrhau caniatâd ar gyfer datblygu Parc Technoleg a fyddai'n cynnwys canolfannau data (B8), gofod ymchwil a datblygiad a gofod swyddfa (B1). Bydd y cynllun yn cynnwys cadw a gwella mannau gwyrdd a gofod glas, gan gynnwys cadw unrhyw goed a phlanhigion gafodd eu plannu ar y ffin. Bydd cyfleoedd ar gyfer tirlunio ar y safle hefyd yn cael eu harchwilio.

## Ailddatblygu Parc Ffyniant

Mae'r safle arfaethedig wedi'i leoli i'r gogledd o'r A55 ar gyrion de-ddwyreiniol Caergybi. Gyda Ffordd Llundain yr A5 i'r gogledd iddo, mae arfordir Bae Penrhos gerllaw i'r gogledd. Mae Parc Manwerthu Caergybi yn rhan o ffin orllewinol y safle.

Mae'r safle hwn yn segur i bob pwrpas, yn dilyn cau'r Gwaith Alwminiwm yn 2009. Mae nifer o adeiladau'r cyn Waith Alwminiwm bellach wedi eu dymchwel, gan gynnwys yr hen simnai.

Bydd y cais cynllunio amlinellol ar gyfer ailddatblygu safle Parc Ffyniant yn llawn at ddefnydd cyflogaeth i ddarparu campws 'Parc Technoleg'. Bydd hwn yn cynnwys canolfannau data (dosbarth defnydd B8), gydag adeiladau swyddfa ac ymchwil a datblygu (dosbarth defnydd B1).




Ffigwr 1: Cynlluniau Safle


Ffin Safle'r Cais

# 2.0 Y Cyd-destun Cynllunio

## Cyd-destun y Polisi Cynllunio

Mae polisïau cenedlaethol a lleol allweddol sydd wedi bod yn sail i ddatblygu'r cynigion Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Gwarchodfa Natur y Wern wedi eu gosod allan isod. Mae'r cynigion GI yn darparu cyfleoedd i fynd i'r afael â pholisïau tirlunio perthnasol:

- Polisi Cynllunio Cymru (PPW) Argraffiad 12 (Chwefror 2024)
- Polisi Cynllunio Cymru (PPW) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) (Mawrth 2016)
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (Gorffennaf 2017)
- Canllawiau Cynllunio Atodol Tirwedd (SPG) - Ebrill 2019





## Seilwaith Gwyrdd

**Mae seilwaith Gwyrdd wedi'i ddiffinio o fewn Argraffiad 12 o Bolisi Cynllunio Cymru fel ' ...rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled naturiol, gofodau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n ymddangos rhwng gofodau ac sy'n cysylltu llefydd. Ar raddfa tirwedd, gall seilwaith gwyrdd gynnwys ecosystemau cyfan megis tiroedd gwlybion, dyfrffyrdd, mawndiroedd a chadwyni o fynyddoedd neu fod yn rhwydweithiau cysylltiedig o gynefinoedd brithwaith, gan gynnwys glaswelltiroedd.'**

**Mae'r Polisi Cynllunio Cymru newydd yn rhoi pwyslais cryf ar gymryd agwedd ragweithiol tuag at Seilwaith Gwyrdd, gan gynnwys ystyriaethau traws ffiniol, adnabod prif allbynnau asesiadau GI, cyflwyno datganiadau GI cymesur gyda chymwysiadau cynllunio a chyfeirio at safonau Adeiladu gyda Natur.**

**Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn rhoi pwyslais ar eglurder pellach ynghylch sicrhau buddion net ar gyfer bioamrywiaeth drwy roi dull hyblyg fesul cam ar waith, gan gynnwys cydnabod mesurau digolledu fel y dewis olaf a'r angen am ystyried gwelliant a rheolaeth hir dymor gyda phob cam. Cydnabyddir pwysigrwydd cydweithredu strategol er mwyn adnabod a manteisio ar gyfleoedd ar raddfa fwy ar gyfer diogelu budd net ar gyfer bioamrywiaeth.**




Ffigwr 2: Agwedd hyblyg fesul cam

# 3.0 Cyd-destun y Safle

## Y Safle a'r Cyffiniau

**Mae'r adran hon yn disgrifio safle'r cais a'r cyffiniau ac yn gosod allan yr arolygon yr ymgymerwyd â hwy, sydd wedi bod yn sail i'r cynigion dylunio.**

Mae'r safle arfaethedig wedi'i leoli i'r gogledd o'r A55 ar gyrion de-ddwyreiniol Caergybi. Gyda Ffordd Llundain yr A5 i'r gogledd iddo, mae arfordir Bae Penrhos gerllaw i'r gogledd. Mae Parc Manwerthu Caergybi yn rhan o ffin i'r gogledd. Mae Parc Manwerthu Caergybi yn rhan o ffin ogledd-orllewinol y safle.

Mae'r safle hwn yn segur i bob pwrpas, yn dilyn cau'r Gwaith Alwminiwm yn 2013. Mae nifer o adeiladau'r cyn Waith Alwminiwm bellach wedi eu dymchwel, gan gynnwys yr hen simnai. Mae hyn yn rhan o'r gwaith i baratoi'r safle cyn iddo gael ei ailddatblygu, ac i fynd i'r afael ag ardaloedd bach y gwyddys eu bod wedi'u halogi fewn y safle. Mae'r safle hefyd wedi cael gwaith cynnal a chadw a rheoli tirlunio wedi'i wneud ar ôl blynyddoedd lawer o gael ei esgeuluso. Mae'r cyfleuster diwydiannol AMG Alpoco oddi allan i safle'r cais, ond mae'n eistedd oddi mewn i safle ehangach yr hen Waith.

Mae'r safle wedi'i leoli'n dda ar gyfer ei ailddatblygu, oherwydd ei fod yn agos at rwydweithiau ffyrdd strategol, ei berthynas gyda thref Caergybi ac ardaloedd masnachol a chyflogaeth eraill. Y cynnig yw i gael mynediad at y safle drwy'r mynedfeydd safle presennol o Ffordd Llundain (A5).




Ffigwr 3: Cynllyn Cyd-destun

Ffiniau'r Safle | Parc Manwerthu | Ffordd yr A5 | A55 Gwibffordd y Gogledd

## Gwerthusiad Tirwedd a Gweledol

**Mae Gwerthusiad Tirwedd a Gweledol (LVA) ar gyfer y datblygiad arfaethedig wedi'i baratoi gan FPCR Environment and Design Ltd. Mae LANDMAP Cymru yn rhannu'r dirwedd yn ardaloedd daearyddol penodol ac yn darparu pum set o ddata gofodol - Daearyddol, Cynefinoedd y Dirwedd, Gweledol a Synhwyraidd, Hanesyddol a Diwylliannol.**

Ar lefel cenedlaethol, mae'r safle wedi'i leoli o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol (NCLA) 01 'Arfordir Ynys Môn'. Mae'r NCLA yma yn amgylchynu Ynys Môn gyfan, ac yn cynnwys Ynys Cybi.

Mae Strategaeth Tirwedd Ynys Môn yn darparu diweddariad ar Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ar gyfer Ynys Môn, sydd wedi eu hadnabod o fewn astudiaeth asesiad tirwedd LANDMAP gwreiddiol ar gyfer Ynys Môn a gyhoeddwyd yn 1999. Mae'n isddosbarthu'r dirwedd yn 18 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (LCA). Mae'r asesiad cymeriad gafodd ei adnabod yn yr ardal o'r Safle yn rhan o LCA2 'Ynys Cybi'.

Mae rhan o ddisgrifiad yr ardal yn datgan: *"Mae yma nifer o gynefinoedd pwysig - rhostiroedd sych, arfordirol a rhwng dau lanw - yn aml o fewn matrics mwy o laswelltir wedi'i wella. Fodd bynnag, mae llawer werth yr 'ynysoedd' yma o gynefinoedd wedi'u dynodi'n Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Caergybi a Threarddur yw'r prif ganolfannau anheddiad. Mae Caergybi, sydd wedi'i lleoli ar safle tref Rufeinig, wedi dod yn brif borthladd gyda diwydiannau cysylltiedig. Yn y blynyddoedd mwy diweddar mae dyfodiad yr A55 wedi cynyddu hwn. Mae rhan o'r dref wedi'i dynodi yn Ardal Gadwraeth .... er gwaethaf hyn, mae'r LCA yn cynrychioli cymeriad tirwedd sy'n eithaf nodedig - gwledig, gwyllt, agored, arfordirol - y prif beth sy'n tynnu oddi arni yw'r sŵn awyrennau o faes awyr Awyrlu Brenhinol y Fali cyfagos".*

Mae'r safle'n cael ei gynnwys yn rhannol o fewn AHNE Ynys Môn. Prif bwrpas yr enwebiad AHNE yw gwarchod nodweddion naturiol a gwerth golygfeydd arfordir Ynys Môn.

Mae'r rhan fwyaf o'r tir a ddatblygwyd yn flaenorol o fewn Parc Ffyniant yn gymharol wastad ac yn 7 i 85m AOD, gyda'r brif fynedfa oddi ar Ffordd Llundain A5 oddeutu 5m AOD. Mae ychydig o dwmpathau hyd at 15m AOD, gan gynnwys y ffin ogleddol gyda'r A5, y ffin orllewinol gyda Pharc Manwerthu Caergybi, ac ar hyd y ffin ddeheuol gyda'r rheilffordd a Gwibffordd y Gogledd yr A55.

## Ecoleg a Choed

**Mae arolwg Cynefin Cam 1 wedi cael ei gynnal. Mae hwn wedi pennu beth yw cyflwr ecolegol a gwerth y cynefinoedd o fewn y safle. Ar yr un pryd ag y gwnaed hyn, cafodd arolygon ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig megis ystlumod, moch daear ac adar eu cynnal. Mae safle'r cais yn bennaf yn cynnwys tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol sy'n gysylltiedig gyda'r gweithgarwch diwydiannol a arferai fod ar y safle, ac ychydig iawn o werth, os o gwbl, sydd gan y tir hwn o safbwynt cynefinoedd a rhywogaethau. O amgylch y tir a ddatblygwyd yn flaenorol mae coed terfyn a choetir, gan gynnwys dwy ardal TPO, gyda llystyfiant a phrysgdir. Mae'r coetir terfyn, gan gynnwys yr ardaloedd TPO, yn cael eu cadw fel rhan o'r datblygiad. Mae un gwrych tuag at gyrion y tir oedd wedi'i ddatblygu'n flaenorol. O fewn yr ardal gogledd-ddwyreiniol mae ardal o laswellt a thir gwlyb wedi'i led wella y cynigir ei fod yn cael ei gadw yn y cynllun.**

Mae yna un safle o bwysigrwydd cenedlaethol yn agos at y safle, sef Beddmanarch-Cymyran Ardal o Bwysigrwydd Gwyddonol Arbennig, sydd oddeutu 500m o'r safle. O gofio mor agos yw'r safle i'r arfordir, mae yna hefyd Ardal o Bwysigrwydd Gwyddonol Arbennig, SPA, a SAC Ynys Cybi oddeutu 2.5km o'r safle.

Mae tystiolaeth bod adar, infertebratau a moch daear ar y safle ond drwy fesurau lliniaru priodol ac arfer gorau bydd y traweffeithiau yn gyfyngedig.

Mae Asesiad Traweffaith Coedyddiaeth wedi'i gynnal ar gyfer y safle ac mae'n nodi bod y safle'n cynnwys cymysgedd o rywogaethau gan gynnwys Sycamorwydden, Ffawydden, Gwernen, Derwen Goesynnog, Helygen a Bedwen. Mae yna amrywiaeth o gategorïau o goed ond nid oes unrhyw goed categori A o fewn y safle.

## Gwaredu Dŵr Wyneb a Llifogi

Mae safle'r cais wedi'i leoli gan mwyaf ym Mharth Llifogydd 1 (y lleiaf o risg llifogydd). Mae yna gyfran fechan o'r safle yn agos at y blaen gyda ffordd yr A5 yn cael ei dangos o fewn Parth Llifogydd 3 (risg uchel o lifogydd). Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddatblygiad adeiledig yn yr arfaeth ar gyfer yr ardal hon a fydd yn cael ei chadw fel rhan o'r seilwaith gwyrdd ar y safle a'r ddarpariaeth tirlunio. Dangosir bod Parth Llifogydd 3 yn dueddol o ddioddef llifogydd oherwydd y môr.

Mae amrywiol nodweddion Draeniad Cynaliadwy (SuDS) ar gael i'w hystyried, a bydd eu darparu yn mynd i'r afael â phedair colofn SuDS. Mae map yr Arolwg Daearegol Prydeinig yn dangos bod y ddaeareg leol yn cynnwys dyddodiadau arwynebol o Till, Defensian – Diamicton mewn haen yn gorchuddio creigwely sy'n cynnwys Grŵp Harbwr Newydd – Mica, Sgist a Psamit. Nid yw cyflwr y ddaear, felly, yn addas ar gyfer defnyddio ymdreiddiad fel dull o waredu'r dŵr wyneb sy'n llifo o'r datblygiad.

Roedd y dŵr oedd yn rhedeg ar yr wyneb o'r cyn safle diwydiannol wedi llifo'n syth, heb unrhyw rwystr, i Fae Caergybi drwy ddwy bibell 1800mm mewn diamedr. Cynigir y dylai'r dŵr wyneb o'r cyn safle diwydiannol ddefnyddio'r ollyngfa bresennol.

# 4.0 Cynigion Seilwaith Gwyrdd

## Cynigion Seilwaith Gwyrdd

Prif amcanion y cynigion GI ar gyfer ailddatblygu Parc Ffyniant yw diogelu a gwella cyfleoedd i ddarparu enillion o safbwynt bioamrywiaeth ar y safle drwy ddiogelu nodweddion ar y ffin, mannau gwyrdd ac ardaloedd o diroedd gwlybion, plannu planhigion a choed ychwanegol ar yr ochr ddeheuol, a chreu gofod cynefin o fewn yr ardal ddatblygu. Gyda'r cynigion ar y cam amlinellol, mae'r Cynllun Paramedrau yn diogelu'r ardaloedd fydd yn cael eu cadw ar gyfer mannau gwyrdd ac ardaloedd gwlyb oddi amgylch y plotiau fydd yn cael eu datblygu. Bydd manylion ar gyfer y tirlunio o fewn y safleoedd sydd i'w datblygu yn dod yn eu blaen drwy'r ceisiadau materion a gedwir yn ôl maes o law. Fodd bynnag, mae'r cynigion Seilwaith Gwyrdd yn darparu fframwaith ar gyfer darparu seilwaith gwyrdd ar y cam cynllun manwl. Mae crynodeb o'r cynigion wedi'u gosod allan isod.

Byddai'r cynigion yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o'r safle a ddatblygwyd yn flaenorol drwy ddarparu datblygiad cyfoes sy'n darparu campws canolfan ddata fodern ac sy'n ymateb i gymeriad y dirwedd leol a thopograffi'r ardal. Yn ogystal â darparu gwelliannau gweledol a gwelliannu i'r dirwedd, bydd y GI yn creu cynefinoedd amrywiol newydd.

Bydd y dirwedd a nodweddion safle presennol a gedwir, gan gynnwys coed ac ardaloedd gwlyb yn sail i fframwaith seilwaith gwyrdd wedi'i wella. Fodd bynnag, bydd rhai coed a llystyfiant cynefinol a phrysgwydd yn cael eu tynnu ymaith yn dilyn gwaith i reoli gofod ar gyfer datblygu'r safle tir llwyd. Bydd nodweddion a gedwir yn cael eu hychwanegu atynt gan gynefinoedd newydd fydd yn manteisio ar gyfleoedd ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig megis adar, infertebratau a choed a llwyni, glaswelltir sy'n gyfoethog gyda gwahanol rywogaethau ponciau ar gyfer glöynnod a borderi prysgwydd ar gyfer fforio. Bydd cadw'r planhigion a'r twmpath ar y ffin, gan gynnwys ardaloedd TPO presennol yn cynorthwyo gydag integreiddiad y datblygiad adeiledig.

Bwriedir cael 'llain' 3 hectar o goed terfyn wedi'u plannu ar hyd y cyrion deheuol a fydd yn darparu oddeutu 7,500 o goed newydd ar y safle. Bydd y 'llain' newydd yma o goed helpu i greu mesurau lliniaru ar gyfer y coed a gollir oddi mewn i'r datblygiad, a hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer cynefinoedd newydd, yn ogystal â helpu i gysgodi'r cynigion.

Bydd creu cynefinoedd dŵr ychwanegol o fewn y safleoedd cynllunio yn cael ei archwilio yn ystod cam dylunio manwl y cynllun. Bydd y cynllun hefyd yn ceisio cynnwys mannau gwyrdd wedi'u tirlunio a phlanhigion sy'n darparu ardaloedd 'ymneilltuo', yn ogystal â llwybrau taclus ar gyfer gweithwyr ar y safle.

Byddai'r brif fynedfa bresennol i'r safle yn darparu porth deniadol. Bydd y porth yn cael ei ddylunio i greu mynedfa arbennig i mewn i'r datblygiad a fydd yn ddiogel ac yn gyfleus i'w ddefnyddio.


Bydd y cynigion tirlunio a'r seilwaith gwyrdd yn sefydlu fframwaith deniadol er mwy integreiddio'r datblygiad cyflogaeth arfaethedig oddi mewn iddo gan gadw nodweddion tirlunio presennol a nodweddion ychwanegol yn darparu cyfleoedd i gryfhau cymeriad tirwedd lleol, cael mynediad at gefn gwlad a bioamrywiaeth.



*(uchod) Mae'r cynigion wedi'u dylunio'n ofalus i ganiatáu ar gyfer cadw nodweddion tirwedd presennol*

## Rheoli a Chynnal a Chadw

Byddai pob ardal a dirluniwyd yn cael ei rheoli a'i chynnal am byth er mwyn sicrhau bod cynefinoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u monitro'n llwyddiannus. Gellid sicrhau hyn drwy amod cynllunio wedi'i eirio'n briodol.




Ffigwr 4: Cynigion Seilwaith Gwyrdd Dangosol'

# 5.0 Gwerthusiad Seilwaith Gwyrdd

## Adeiladu gyda Natur

Mae'r adran hon yn darparu gwerthusiad o'r cynigion Seilwaith Gwyrdd gan ddefnyddio safonau Adeiladu gyda Natur (BwN). Gyda'i gilydd, mae'r safonau BwN yn diffinio 'beth yw ystyr da' drwy gynnig cyfres o safonau ansawdd ar gyfer creu a chadw llefydd, gan gwmpasu themâu lles, dŵr a bywyd gwyllt.




- Safonau Craidd 1-6
- Safonau Lles 7-8
- Safonau Dŵr 9-10
- Safonau Bywyd Gwyllt 11-12

### 1. *Gwneud y gorau o Aml-bwrpas a Chysylltedd*

Cynhaliwyd arolygon Tirwedd, Ecoleg a Choedyddiaeth er mwyn adnabod nodweddion Seilwaith Gwyrdd a rhwydweithiau ecolegol o fewn y safle a'i amgylchedd. Bydd mannau gwyrdd a gofod glas yn cael eu cadw a'u gwella, gan gynnwys plannu ar y terfyn, a cheisio sicrhau cyfleoedd i ddarparu ardaloedd ychwanegol o dirlunio a phlannu o fewn y safle, megis ar hyd y ffin ddeheuol ac oddi mewn i gampws y Parc Technoleg. O gofio treftadaeth ddiwydiannol y safle bydd y fioamrywiaeth yno, gan gynnwys cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig yn cael eu gwella.

### 2. *Ymateb yn Bositif i'r Argyfwng Hinsawdd*

Unwaith mae'r Seilwaith Gwyrdd wedi'i ddatblygu, rhagwelir y bydd y cynigion yn darparu enillion o safbwynt bioamrywiaeth o ran mannau gwyrdd a gofod glas newydd wedi'u gwella, gyda buddion cysylltiedig megis lleihau dŵr wyneb sy'n rhedeg ar y safle ac oeri o fewn ardal y campws.

### 3. *Mwyhau Enillion Net Amgylcheddol*

*Bydd y cynigion yn ymgorffori cyfleoedd ar gyfer cynefinoedd newydd a phlannu planhigion lle mae'n briodol, megis 7,500 o goed newydd, glaswelltir sy'n gyfoethog gyda rhywogaethau a llwyni.*

### 4. *Hyrwyddo Dull o Weithredu sy'n cael ei Arwain gan Gyd-destun*

Mae'r broses ddylunio wedi rhoi ystyriaeth cyfan gwbl i'r lleoliad, yr hyn sy'n ei amgylchynu a defnydd diwydiannol o'r safle. Mae cynllun ac ymddangosiad y cynefinoedd a'r gwaith plannu newydd yn cael eu dylanwadu gan ei gyd-destun a'i leoliad. Tra bod angen clirio rhai coed a llystyfiant ar gyfer y cynllun, byddai'r rhan fwyaf o'r llystyfiant presennol yn cael ei gadw a'i ychwanegu ato o fewn y safle gyda chyfleoedd i greu cynefinoedd newydd a gwaith plannu er mwyn helpu i integreiddio'r cynllun gyda'r dirwedd ehangach.

### 5. *Creu Llefydd Nodedig*

Bydd y dirwedd a'r cynigion Seilwaith Gwyrdd yn sefydlu fframwaith deniadol y gellir integreiddio ailddatblygiad arfaethedig y safle oddi mewn iddo at bwrpas cyflogaeth drwy wella a chadw mannau gwyrdd, gan fanteisio ar gyfleoedd i wella cynefinoedd a nodweddion sy'n bodoli eisoes, a chynnwys peth gwaith plannu coed ychwanegol.

*6. Diogelu Cadw Lle mewn ffordd Effeithiol*

Byddai'r Seilwaith Gwyrdd newydd sydd wedi'i greu a'i wella yn cael ei roi am byth (ac yn cael ei ddiogelu drwy amod cynllunio), er mwyn sicrhau bod planhigion a choed a chynefinoedd newydd yn cael eu sefydlu a'u cynnal yn llwyddiannus.

*7. Dod â Natur yn Nes at Bobl*

Bydd y cynefinoedd sydd wedi'u gwella a thirlunio newydd, plannu a gofod glas newydd ar y safle yn darparu nodweddion ychwanegol o fewn y safle, a fydd yn creu cysylltiadau hygyrch newydd ar gyfer gweithwyr o fewn y safle - bydd y rhain yn helpu i ddod â gweithwyr yn nes at natur.

*8. Cefnogi Llefydd Teg a Chynhwysol*

Mae'r cynigion yn darparu ar gyfer ailddatblygu Parc Ffyniant sydd ar hyn o bryd yn segur i bob pwrpas ac yn barod i waith datblygu newydd ddechrau ar y safle. Bydd y cynllun felly yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ddarparu cyflogaeth newydd a chyfleoedd newydd i fuddsoddi yn Ynys Môn ac ar draws yr holl ranbarth.

*9. Darparu Rheolaeth Dŵr sy'n gallu Gwrthsefyll yr Hinsawdd*

Byddai'r cynigion yn creu gofod glas newydd o fewn y safle fel rhan o Seilwaith Gwyrdd ar y safle a chynllun tirlunio fyddai'n cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo fel rhan o'r cam cynllunio manwl (o dan faterion a gedwir yn ôl).

*10. Dod â Dŵr yn Nes at Bobl*

Gweler y sylwad mewn perthynas ag Adran 7 uchod.

*11. Dod â Gwelliannau i Fywyd Gwyllt*

Mae'r cynigion yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer plannu mwy o blanhigion a choed brodorol a rhai newydd a phlannu o fewn ardaloedd o laswelltir sy'n llawn rhywogaethau o fewn y safle. Paratowyd Adroddiad Ecoleg i gyd-fynd efo'r cais. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion ynghylch y cyfleoedd i wella cynefinoedd a'r buddion sy'n dod gyda hynny o ganlyniad i'r cynigion arfaethedig ym Mharc Ffyniant.

*12. Sail i Adferiad Byd Natur*

Mae'r cyfleodd arfaethedig ar gyfer gwelliannau i fioamrywiaeth yn cynnwys darparu llwyni brodorol, glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau, ponciau glöynnod byw a phrysgwydd o amgylch ymylon. Fel y nodwyd uchod, mae'r cynigion Seilwaith Gwyrdd hefyd yn cynnwys coed newydd (oddeutu 7,500 i'w plannu ar hyd y ffin ddeheuol) a gofod glas ychwanegol o fewn ardal y campws. Bydd manylion am y Seilwaith Gwyrdd yn cael ei ddarparu ar y cam cynllun manwl drwy'r cymhwysiad materion a gedwir yn ôl.

# Parc Ffyniant , Ynys Môn

